



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Archwilio Cymunedau

Dyddiad: Dydd Mercher, 4 Ebrill
2012

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD IAU, 12 EBRILL 2012 am 9.30 am yn YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaid

AGENDA

RHAN I - GWAHODDRIR Y WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN YMA O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant personol neu fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd wedi ei nodi i'w ystyried yn y cyfarfod yma.

3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 1 - 10)

I dderbyn cofnodion y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2012 (copi'n amgaeëdig)

5 ETAPE CYMRU (Tudalennau 11 - 30)

I ystyried adroddiad gan Brif Swyddog y Strategaeth Adfywio a Buddsoddi (copi'n amgaeedig) ar gynnydd hyd yma gyda digwyddiad Etape Cymru 2012.

9.40 a.m. – 10.10 a.m.

6 DIWEDDARIAD AR YMGYSYLTIAD CYMUNEDOL (Tudalennau 31 - 38)

I ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau (copi'n amgaeedig) yn ceisio cefnogaeth aelodau i'r dull o ddatblygu methodoleg strwythurchedig ar gyfer gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu'r Cyngor.

10.10 a.m. – 10.40 a.m.

~~~~~ TORIAD ~~~~~

### **7 DOD YN NES AT Y GYMUNED (Tudalennau 39 - 54)**

I ystyried adroddiad gan Gyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau (copi'n amgaeedig) yn diweddar aelodau ar gynnydd y gwaith a wnaethpwyd gan Fwrdd Rhaglen Dod yn Nes at y Gymuned.

**10.50 a.m. – 11.20 a.m.**

### **8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 55 - 72)**

I ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi'n amgaeedig) yn ceisio adolygiad o flaenraglen waith y pwylgor ac yn diweddar aelodau ar faterion perthnasol.

## **9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

I dderbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyddau a Grwpiau'r Cyngor

## **RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

Dim Eitemau.

## **AELODAETH**

### **Y Cyngorwyr**

Ian Armstrong  
Brian Blakeley  
June Cahill  
James Davies  
Diana Hannam  
Rhys Hughes

Richard Jones  
Peter Owen  
David Smith  
Selwyn Thomas  
Cefyn Williams

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Eitem Agenda 4

## PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun dydd Iau 1 Mawrth 2012 am 9.30 a.m.

### PRESENNOL

Cyngorwyr D.I. Smith (Chair), I.W. Armstrong, J. Cahill, T.R.. Hughes, E.R. Jones, P.W. Owen, S. Thomas a C.H. Williams.

Roedd y Cyngorydd W.L. Cowie yn mynchu fel arsyllwr.

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau (HW), Prif Swyddog Strategaeth Adfywio a Buddsoddi (RW), Peiriannydd Gwaith Stryd (TD), Rheolwr Adfywio Strategol (MD), Rheolwr Prosiect: Busnes, Cynllunio a Pherfformiad (SLP), Rheolwr Adfywio a Datblygu Arforol (MB), Rheolwr Tîm Cefnogi Pobl (JE), Swyddog Gwella Corfforaethol (EW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM).

Roedd Mr Bill Newton a Mr David Clayton, aelodau o Glwb Cychod Hwylio'r Rhyl a chynrychiolwyr Fformwr Harbwr y Ford a Tony Mead (cyn Meistr yr Harbwr) yn mynchu ar gyfer Eitem 6 - Ffioedd a Thaliadau Angori yn Harbwr y Ford.

Roedd Mr Colin Evans a Mr Tom Barham, cynrychiolwyr Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, yn mynchu ar gyfer Eitem 9 – Ariannu Cymunedau

### 1. YMDDIHEURIADAU

Cyngorwyr B. Blakeley, J.M. Davies a D. Hannam a'r Aelodau Cyfetholedig Ms D. Houghton a Dr D. Marjoram.

### 2. DATGANIADAU BUDD

Datgelodd y Cyngorydd I.W. Armstrong fudd personol ac un fyddai'n rhagfarnu ym musnes Eitem 6 fel Cadeirydd Fformwr Harbwr y Ford ac aelod o Glwb Cychod Hwylio'r Rhyl. Fodd bynnag, gofynnodd y Pwyllgor iddo gymryd rhan ym musnes Eitem 6 fel dyst.

### 3. MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitem a ddylid, ym marn y Cadeirydd, gael ei hystyried yn y cyfarfod fel un brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 4. COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd dydd Iau 19 Ionawr 2012.

Awgrymodd y Cyngphonydd T.R. Hughes y dylai'r penderfyniad a adroddwyd ar gyfer Eitem 8 ar 'Dorri Gwair ar Ymylon y Priffyrdd' gael ei newid i adlewyrchu'n decach fod y Pwyllgor yn cytuno y dylid ymgynghori â Grwpiau Ardaloedd Aelodau er mwyn sefydlu pa ffyrdd o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB) y gellid yn ddiogel gael y 'Toriad Bioamrywiaeth'.

Cytunodd y Pwyllgor fod y Cofnodion, fel arall, yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod blaenorol.

**PENDERFYNWYD - bod y Cofnodion yn cael eu newid er mwyn i'r penderfyniad ar Eitem 8 ddarllen fel a ganlyn:**

"a) Gweithredu Opsiwn 1 yn yr AONB ar bob llwybr a ystyrir yn ddiogel ar gyfer toriad bioamrywiaeth yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Grwpiau Ardaloedd Aelodau lleol a bod Opsiwn 2 yn cael ei weithredu ar weddill ffyrdd y Sir;"

a bod y Cofnodion yn cael eu derbyn fel cofnod gwir a chywir o wneud yr uchod.

## 5. ACHLYSUR BEICIO ETAPE CYMRU

Cyflwynodd y Prif Swyddog Strategaeth Adfywio a Buddsoddi (PRISO) adroddiad a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod sy'n rhoi manylion trefniadau sydd wedi'u gwneud ar gyfer yr Achlysur Beicio Etape Cymru 2012. Hysbyswyd y Pwyllgor o'r anawsterau oedd wedi effeithio ar achlysur y llynedd, yn arbennig y rhai'n ymwneud â diffyg cyfathrebu ac ymgynghori â busnesau a chymunedau lleol ac eglurodd y mesurau a gymerwyd i sicrhau bod trefniadau'n well ar gyfer achlysuron yn y dyfodol. Dywedodd y PRISO fod Prif Weithredwyr Cyngor Sir Dinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam o blaid cynnal yr achlysur eto eleni o dan y trefnwyr newydd Participate Sports gyda Dydd Sul 9 Medi wedi'i glustnodi fel dyddiad possibl.

Cododd y Cyngphonydd T.R. Hughes, Aelod lleol Llangollen, nifer o faterion oedd yn codi o achlysur Etape Cymru y llynedd oedd wedi effeithio'n negyddol ar y gymuned leol a gofynnodd am sicrwydd os oedd yr achlysur i'w gynnal eto eleni fod trefniadau'n cael eu gwneud i sicrhau na fyddai'r un problemau'n codi eto. Roedd achlysur y llynedd wedi achosi pryderon yn ymwneud â:

- Chyfathrebu â'r gymuned leol
- Ymgysylltu â busnesau lleol
- Colli busnes oherwydd cau ffyrdd
- Diffyg stiwardio'r achlysur

Eglurodd PRISO fod y Cyngor wedi dysgu o'r camgymeriadau a wnaed wrth drefnu achlysur y llynedd a bod y profiad wedi pwysleisio'r angen bod angen

gwella'r trefniadau ymgyngori a chyfathrebu gyda'r gymuned leol eleni. Dywedwyd bod nifer o'r problemau oherwydd diffyg trefnu gan y trefnwyr blaenorol K-Extreme, yn arbennig aneffeithiolwydd y cwmni roedd K-Extreme wedi'i ddefnyddio i sicrhau gwasanaethau stiwardio ar gyfer yr achlysur. Mynegodd y PRISO hyder y byddai profiad ac arbenigedd y trefnwyr newydd yn sicrhau y byddai'r achlysur yn cael ei gynnal yn llawer mwy effeithiol ac y byddai'r gwelliannau mewn ymgyngori'n hybu cyfranogiad busnesau lleol yn yr achlysur gyda'r gobaith y byddai'r cyfleoedd oedd yn codi o gynnal y math hwn o achlysur mawr yn cael eu mwyhau drwy ymgysylltiad effeithiol gyda busnesau.

Nid oedd yr awgrymiadau i beidio â defnyddio Bwlch yr Oernant fel llwybr i'r achlysur yn cael eu hystyried yn hyfyw o gofio bod y Bwlch yn cael ei ystyried fel pwynt gwerthu pwysig i'r achlysur. Cydnabu'r Aelodau y byddai gwella'r trefniadau'n lleihau'r effaith negyddol ar y gymuned leol, ond pwysleisiodd fod colli'r busnes amser cinio ar y Sul yn dal i fod yn broblem sylweddol. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd y byddai'r ras wedi mynd dros Fwlch yr Oernant mewn pryd i ail-agor y ffordd fel na fyddai busnesau'n dioddef yr anghyfleuster yn ystod eu hamser masnachu brig sef cinio Sul. Dywedodd y PRISO na ellid gwarantu hyn hyd nes i'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch gyfarfod ar 2 Mawrth ond y bydden nhw'n trafod y targed o gael Bwlch yr Oernant yn agored i draffig erbyn 11.00a.m. Roedd yr amser dechrau wedi'i drefnu ynghynt i weithio tuag at hyn a dywedodd y PRISO y gallai'r ffyrdd ail-agor pan fyddai'r beicwyr araf yn gostwng o dan y cyflymder o 11mph.

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'r ddadl, gan nodi nad oedd y Pwyllgor yn erbyn cynnal yr achlysur ond na ellid cefnogi'r achlysur oni bai bod y trefniadau a'r cyfathrebu'n gwella a gofynnwyd am sicrwydd y byddai pob un â diddordeb yn derbyn cyfathrebu clir fel blaenoriaeth. Nodwyd hefyd ddiffyg monitro effeithiol yn achlysur y llynedd a bod y Cadeirydd yn gofyn am sefydlu trefniadau i archwilio'r effaith y byddai'r ras yn ei gael ar y gymuned leol cyn ac ar ôl yr achlysur.

**PENDERFYNWYD** - bod y Pwyllgor yn cadarnhau cau'r ffordd i ganiatáu cynnal Etape Cymru 2012, gyda'r amodau:

- a) y dylid ymgyngori gyda'r cymunedau a'r busnesau lleol sy'n cael eu heffeithio wrth gau'r ffyrdd gan gynnwys ymgyngori gyda'r Grŵp Ardaloedd Aelodau lleol;
- b) y dylid monitro effaith yr achlysur ar gymunedau lleol cyn, yn ystod ac ar ôl y ras gydag adroddiad ar yr agwedd hon yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn Hydref 2012; a
- c) bod y Pwyllgor yn derbyn gwarant y bydd Bwlch yr Oernant yn cael ei ail-agor i draffig erbyn 11am.

## 6. FFIOEDD A THALIADAU ANGORI HARBWR Y FORYD

Cyflwynodd y Rheolwr Adfywio a Datblygu Arforol (MRDM) adroddiad oedd wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod ac a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried a chefnogi newidiadau i daliadau am angori cychod yn Harbwr y Foryd. Roedd yr eitem wedi'i threfnu i'w thrafod yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 19 Ionawr ond wedi'i gohirio i ymgynghori gyda Fformwr Harbwr y Foryd sydd wedi'i gynnal erbyn hyn.

Eglurodd y MRDM y gwaith oedd wedi'i wneud i amnewid angorfeydd a'r angen am i'r Harbwr godi ffioedd angori i ganiatáu i'r prosiect greu ei gronfa ei hun yn hytrach na dibynnu ar gronfeydd Cyngor Sir Dinbych. Nodwyd y taliadau yn yr adroddiad a chynigiwyd disgownt o 50% am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2013 i ganiatau i'r gwaith datblygu ar y rhaglen gael ei gwblhau.

Roedd aelodau Clwb Cychod Hwylio'r Rhyl oedd hefyd ar Fformwr Harbwr y Foryd yn bresennol yn y cyfarfod a gwahoddwyd hwy i wneud datganiadau i'r Pwyllgor. Mynegodd Mr Bill Newton, Llywydd Anrhydeddus Clwb Cychod Hwylio'r Rhyl, ei bryder gyda'r modd yr oedd y Cyngor wedi delio â'r broses ail-ddatblygu a chodi tâl hyd yn hyn a chyflwynodd ddogfen oedd yn crynhoi materion Harbwr y Foryd i'r Cadeirydd. Cyfeiriodd Mr Newton at bryderon penodol am ansawdd yr angorfeydd newydd a'r penderfyniad i godi tâl cyn gorffen ail-ddatblygu'r harbwr. Cadarnhaodd y Cyngorydd Ian Armstrong ei fod yn bresennol pan oedd Prif Weithredwr y Cyngor wedi rhoi sicrwydd, drwy sgwrs ffôn mewn cyfarfod o Fformwr yr Harbwr ym mis Mawrth 2011, na fydden nhw'n codi tâl hyd nes bod camau 2 a 3 o'r prosiect ail-ddatblygu'r harbwr wedi'u cwblhau.

Dyweddodd y MRDM fod y problemau angori oherwydd gor-fanylu yn hytrach na diffygion a dywedodd y byddai'n cyfarfod y contractwyr i ddatrys y mater. Nododd y Rheolwr Prosiect: Busnes, Cynllunio a Pherfformiad hefyd nad oedd y ffi dargadw ar y cytundeb angorfeydd eto wedi'i dalu ac na fyddai'n cael ei dalu hyd nes cael ateb boddhaol.

Dyweddodd y Cadeirydd o fewn y trefniadau codi tâl arfaethedig, y byddai hanner y ffioedd yn daladwy o fis Ebrill 2012 pan fyddai'r gwaith datblygu'n dal i fynd ymlaen. Awgrymodd fod y gwasanaeth yr oedd defnyddwyr cychod yn ei gael gan yr harbwr yn waeth na chyn y datblygiadau ac felly na fyddai'n deg cyflwyno taliadau cyn cwblhau'r gwaith gwella. Cydnabuwyd nad oedd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau'r awdurdod terfynol i benderfynu sut dylid gweithredu'r ffioedd ond gallai'r Pwyllgor wneud argymhelliaid ffurfiol. Wrth ystyried hyn, cefnogodd y Pwyllgor yr awgrym y dylid gohirio cyflwyno'r ffioedd am 12 mis hyd nes bod yr harbwr yn addas i'w ddefnyddio.

#### **PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor yn argymhell:**

(a) cefnogi graddfa'r taliadau arfaethedig yn yr adroddiad mewn egwyddor, ond bod gweithredu codi unrhyw un o'r taliadau yn yr adroddiad yn cael ei ohirio hdy at 1 Ebrill 2013 i ystyried gwaith datblygu'r rhaglen o fewn yr harbwr;

- (b) bod graddfa'r disgownt a gynigiwyd yn yr adroddiad yn cael ei adolygu'n flynyddol ar ôl ystyried galw'r farchnad; a  
(c) bod cyfraddau lleol yn cael eu cymhwysio i Fae Cinmel a Thowyn (wardiau 12 ac 13 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.)

## 7. NEWIDIADAU I'R STRATEGAETH CEFNOGI POBL 2012-14 A CHYNLLUN GWEITHREDU CEFNOGI POBL 2012/13

Cyflwynodd y Rheolwr Tîm Cefnogi Pobl (SPTM) adroddiad a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod ac a oedd yn rhoi manylion Strategaeth Cefnogi Pobl 2012-14 a'r Cynllun Gweithredu cysylltiol ar gyfer 2012/13. Gofynnodd am farn y Pwyllgor ar y cynlluniau. Eglurwyd bod y Cynllun Gweithredu'n elfen o'r Strategaeth Cefnogi Pobl oedd wedi'i lunio'n flynyddol yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru. Cafwyd crynodeb gan y SPTM o'r nifer o newidiadau oedd wedi'u gwneud i'r camau a gynlluniwyd ar gyfer 2012-14 yn dilyn ymgynghori - roedd y manylion yn yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ar y cynnwys a'r newidiadau a wnaed i'r Cynllun Gweithredu, cododd y Pwyllgor nifer o faterion gan gynnwys:

- Ystyried darpariaeth Sir Ddinbych ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd gan gam-drin domestig. Cadarnhaodd y SPTM fod darpariaeth wedi'i pharatoi i letya dioddefwyr gwrywaidd yn ychwanegol at ddarparu lloches i ferched a bod y ddau sefydliad, Hafan Cymru a Chymorth i Fenywod Gogledd Sir Ddinbych, yn gweithio gyda'r ddau ryw.
- Ymholiad yn ymwneud ag amnewid tai â chymorth o fewn y ddwy ardal ymyrraeth adfywio. Cadarnhawyd bod, fel y landlordiaid perthnasol, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn (CAHA) yn cael hyd i ddarpariaeth arall ar gyfer saith uned. Dywedwyd bod y ddarpariaeth amnewid y tu allan i'r ardaloedd ymyrraeth ond yn debygol o fewn ardal y Rhyl oherwydd argaeedd darpariaeth. Roedd CAHA yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau addaswydd eiddo amgen a bydd strategaeth tai â chymorth yn cael ei datblygu i edrych i mewn i hyn ymhellach.
- Pryderon am rai unigolion yn symud i mewn i Sir Ddinbych a gweithredu rhai B&Bs. Nodwyd bod pobl yn gallu dewis byw lle'r oedden nhw'n dymuno a bod, mewn rhai amgylchiadau, lleoliadau'n cael eu trefnu gan aml-asiantaethau, er enghraifft, mewn perthynas â diogelwch y cyhoedd neu reoli risg. Roedd trefniadau o'r fath yn gweithredu ar sail ddwyochrog, felly gall pobl o Sir Ddinbych mewn amgylchiadau tebyg gael eu lleoli mewn siroedd eraill. Cynghorwyd yr Aelodau y dylid cyfeirio ymholiadau am leoliadau'r digartref at Bennaeth y Gwasanaeth ac y dylai ymholiadau'n ymwneud â B&Bs penodol nad sy'n gweithredu fel B&Bs, efallai gael eu cyfeirio at adran gynllunio Sir Ddinbych.
- Yr angen am egluro'r nifer o unedau tai â chymorth nad oedd wedi'u nodi'n glir yn y Cynllun Gweithredu.

**PENDERFYNWYD** - o ystyried y sylwadau uchod, bod y Pwyllgor yn cefnogi'r Strategaeth Cefnogi Pobl ddiwygiedig 2012-14 a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2012/13.

## 8. AROLWG TRIGOLION SIR DDINBYCH 2011

Cyflwynodd y Swyddog Gwella Corfforaethol (CIO) adroddiad oedd wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod gyda manylion darganfyddiadau Arolwg y Trigolion. Gofynnodd am farn y Pwyllgor a oedd unrhyw faterion angen craffu pellach. Roedd yr arolwg wedi cael cyfradd ymateb is na'r arolwg a gomisiynwyd yn 2009 ond dywedwyd bod yr ymateb (38%) yn gymharol uchel am arolwg drwy'r post. Cyflwynodd y CIO grynodeb o brif ddarganfyddiadau'r arolwg a nododd fod yr ymatebion yn gyffredinol wedi'u targedu at feysydd yr oedd yr ymatebwyr yn gyfarwydd â nhw. Roedd yr arolwg wedi cymryd llinell eang o holi er mwyn amlygu pryderon. Edrychwyd ar y rhain yn fwy manwl ac roedden nhw'n cael eu defnyddio i helpu gwasanaethau ddatblygu eu Cynlluniau Gwasanaeth ar gyfer 2012/13, ac i ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol newydd 2012-16.

Gofynnodd y Cynghorydd T.R. Hughes a oedd y themâu a amlygwyd yn yr arolwg yn adlewyrchu'r cwynion a dderbyniwyd gan y gwahanol wasanaethau. Dywedodd y CIO fod hyn yn rhywbeth roedd y Gwasanaethau Cwsmeriaid yn edrych arno a phwysleisiodd mai bwriad yr arolwg oedd amlygu problemau na fyddai fel arall wedi denu cwynion.

Dyweddodd y Cynghorydd fod anawsterau wrth ddefnyddio system gwynion CRM, oedd wedi rhestru cwynion fel rhai oedd wedi'u datrys cyn i hyn ddigwydd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau fod y mater hwn wedi'i amlygu a bod Gwasanaethau Cwsmeriaid yn addasu eu prosesau i fonitro datrys cwynion yn hytrach na'u gweinyddu.

Eglurodd y CIO hefyd fod y cwestiynau wedi'u gosod gan swyddogion mewn ymgynghoriad â gwahanol adrannau i sicrhau eu heffeithiolrwydd ac y byddai'r ystadegau a gasglwyd yn parhau'n ddilys ar gyfer adrodd yn ôl am ddwy flynedd.

**PENDERFYNWYD-** *bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad ac yn argymhell bod y Grwpiau Ardaloedd Aelodau yn cael eu hannog i wneud defnydd rheolaidd ac effeithiol o'r data a gasglwyd drwy'r Arolwg Trigolion.*

## 9. ARIAN Y GYMUNED

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau (CD:LC) adroddiad oedd wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod. Roedd yn rhoi trosolwg o'r system dyrannu arian i Grwpiau Ardaloedd Aelodau a sut roedd yr arian hwn wedi'i ddefnyddio a hefyd yn amlinellu cynigion i ddatblygu Cronfa Waddol Cymuned Sir Ddinbych.

Eglurwyd bod tanwariant unigryw'r llynedd wedi caniatáu i £300k gael ei ddyrannu i'r 6 Grŵp Aelodau Ardal (MAGs) i'w wario ar brosiectau yn y gymuned. Roedd pob MAG wedi derbyn £50,000 i'w wario ar brosiectau a fyddai o fudd i'w cymunedau yn eu barn nhw a chafwyd manylion prosiectau unigol a'r arian yn yr adroddiad. Oherwydd sefyllfa ariannol y Cyngor, ni ellir

rhagweld y bydd yr un lefel o arian ar gael i MAGs mewn blynnyddoedd i ddod, ond roedd y Cyngor wedi dyrannu arian sylweddol i gefnogi Cynlluniau Trefi oedd yn y broses o dderbyn cymeradwyaeth. Mynegwyd bod y Cynlluniau Trefi wedi helpu'r Cyngor i adnabod blaenoriaethau pob un o'r trefi. Roedd hyn wedi annog ymarfer ymgynghori tebyg oedd i'w gynnal yn fuan gyda Chyngorwyr lleol cyn etholiadau awdurdodau lleol i sefydlu blaenoriaethau'r cymunedau gwledig.

Dyweddodd yr Aelodau am yr effaith positif roedd prosiectau unigol wedi'u cael ar eu cymunedau lleol ond mynegwyd dymuniad am gydweithio agosach pan ellid nodi prosiectau a allai fod o fudd i wahanol ardaloedd ar draws Sir Ddinbych. Dywedodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau (HoFA) y byddai MAGs angen ymgysylltu i nodi dymuniad sut gellid dyrannu arian posibl i brosiectau yn y gymuned yn y dyfodol. Ychwanegodd y Cadeirydd fod y posibilrwydd o arian cyfatebol ar gyfer prosiectau yn y gymuned yn rhoi cyfle gwych i wneud y gorau o'r buddion i bawb.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n rhaid i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ystyried arolwg o ba mor effeithiol roedd gwario'r cronfeydd hyn wedi bod a pha wersi a ddysgwyd ar gyfer y dyfodol ar ôl ethol y Cyngor newydd. Cytunwyd i ychwanegu hyn fel eitem yn Rhaglen Gwaith Ymlaen y Pwyllgor ar gyfer y cyfarfod oedd wedi'i drefnu ar gyfer 14 Mehefin.

**PENDERFYNWYD** yn unol ag Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol oherwydd ei bod yn bosibl y byddai gwybodaeth eithriadol yn cael ei datgelu fel y diffiniwyd ym Mharagraff 14 Rhan 4 Trefnlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## RHAN II

Aeth y cyfarfod ymlaen i Ran 2 i ystyried atodiad cyfrinachol i'r adroddiad oedd yn rhoi manylion cynigion i sefydlu Cronfa Waddol Cymuned Sir Ddinbych i reoli cronfeydd ymddiriedolaeth marwaidd ac aneffeithiol oedd yn cael eu cadw gan y Cyngor.

Eglurodd Mr Colin Evans o'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru fod gan ei sefydliad brofiad mewn cymathu cronfeydd ymddiriedolaeth er mwyn eu cymhwys o'n effeithiol ac amlinelloedd gynigion i ddwyn y cronfeydd oedd yn enw'r Sir at ei gilydd. Eglurwyd y byddai Cronfa Waddol Cymuned Sir Ddinbych yn gallu defnyddio cronfeydd ymddiriedolaeth nad oedd cynt wedi bod yn hyfyw'n economaidd i weinyddu ar y cyd gyda buddsoddiad allanol posibl gan ddyngarwyr lleol i gefnogi prosiectau lleol ar y dechrau drwy grantiau addysg ond yna'n ehangu'r cwmpas dros amser. Eglurodd Mr Evans na fyddai'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru yn chwilio am wneud elw wrth reoli'r gronfa - roedd manylion ei ffioedd am weinyddu'r gronfa wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Gofynnodd y Cyngorydd T.R. Hughes pam bod cronfa ymddiriedolaeth sefydledig oedd wedi cefnogi cyflwyno gwobrau mewn ysgolion wedi peidio â

bod yn sydyn a dywedwyd bod hon yn un enghraifft possibl o'r cronfeydd ymddiriedolaeth nad oedd yn hyfyw'n economaidd oherwydd gwerth ariannol presennol y fwrsariaeth. Cadarnhaodd yr HoFA hefyd y byddai ymddiriedolaethau mewn ysgolion hefyd yn cael eu cynnwys yn y cynllun gan y bydden nhw'n cael eu dal yn enw'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor:**

- a) *yn nodi'r adroddiad ar y system o ddyrannu cronfeydd i Grwpiau Ardaloedd Aelodau;*
- b) *yn argymhell cael adroddiad ar arolwg o ba mor effeithiol roedd y Grwpiau Ardaloedd Aelodau wedi gwario eu dyraniadau o arian y gymuned yng nghyfarfod mis Mehefin o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau;*
- c) *yn cefnogi'r cynnig, o gael cefnogaeth y Comisiwn Elusennau, bod y 55 ymddiriedolaeth farwaidd neu aneffeithiol a'u hasedau cysylltiol yn cael eu trosglwyddo i 'Gronfa Waddol Cymuned Sir Ddinbych' arfaethedig i'w rheoli gan ac i fod yn gyfrifoldeb cyfreithiol y Sefydliad; ac*
- d) *yn cefnogi'r cynnig i ymgymryd â'r camau cyfreithiol angenrheidiol ac yn arwyddo'r cytundeb angenrheidiol gyda'r Sefydliad Cymuned yng Nghymru.*

**10. RHAGLEN WAITH CRAFFU**

Dosbarthwyd copi o adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu, oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Waith Ymlaen a rhoddodd ddiweddariad ar faterion perthnasol, gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Eglurodd y Cydlynnydd Craffu mai cyfarfod nesaf y Pwyllgor, i'w gynnal ar 12 Ebrill, fyddai'r cyfarfod olaf cyn yr etholiad. Dywedwyd y dylai'r 3edd eitem oedd wedi'i threfnu ar gyfer y cyfarfod hwn, sef adroddiad ar Lwybr Mynediad Cyffredin i Dai, gael ei gohirio tan ar ôl yr etholiad oherwydd y gallai'r mater fod yn ddadleuol yn ystod cyfnod yr etholiad. Cytunodd y Pwyllgor i addrefnu'r eitem ar gyfer cyfarfod mis Mehefin o Bwyllgor Craffu Cymunedau. Byddai hyn yn gadael 2 eitem yn unig ar gyfer y cyfarfod nesaf felly cytunodd y Pwyllgor i dderbyn diweddariad ar y paratoadau ar gyfer yr achlysur beicio E-tape Cymru, gydag adroddiad monitro pellach i'w ystyried ym mis Hydref 2012.

Roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi penderfynu mai Prosiect Mynd Ymlaen y Rhyl oedd agosaf at gylch gwaith y Pwyllgor Craffu Cymunedau ac wedi gofyn i'r Pwyllgor graffu'r prosiect. Gofynnodd y Cydlynnydd Craffu i'r Pwyllgor arolygu'r mater hwn i benderfynu sut dylai'r prosiect gael ei graffu a chytunwyd gofyn i gynrychiolydd o Brosiect Symud Ymlaen y Rhyl fynychu cyfarfod mis Gorffennaf y Pwyllgor er mwyn rhoi manylion cynnydd y prosiect fel y gellid nodi ardaloedd possibl i'w craffu.

Cadarnhaodd y Pwyllgor y byddai adroddiad i adolygu buddion yr amrywiol prosiectau a gynhaliwyd fel rhan o arian cymuned MAG yn cael ei ystyried yng nghyfarfod mis Mehefin o'r Pwyllgor, fel y trafodwyd ynghynt.

Dyweddodd y Cydlynydd Craffu fod y grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi penderfynu sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen ar y cyd rhwng y Pwyllgor Craffu Cymunedau a Phwyllgor Craffu Partneriaethau i ystyried y cynigion ar gyfer Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru a threfnwyd bod y Grŵp yn cyfarfod ar 15 Mawrth. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Cyngor J. Cahill yn cynrychioli'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar y Grŵp hwn gyda'r Cyngor T.R. Hughes i ddirprwyo os byddai angen.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i drefnu ystyried adroddiad ar effaith atal cludiant am ddim i Ysgol Dinas Bran ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi.

Yn olaf, atgoffodd y Cydlynydd Craffu'r Pwyllgor am yr holiadur oedd wedi'i ddosbarthu yn gofyn am sylwadau ar drefniadau Craffu'r Cyngor er mwyn hysbysu'r Adroddiad Craffu Blynnyddol a gofynnodd am ddychwelyd yr ymatebion erbyn 8 Mawrth.

#### **PENDERFYNWYD –**

- (a) *cymeradwyo'r Rhaglen Waith Ymlaen a welir yn Atodiad 1 o wneud y newidiadau uchod; a*
- b) bod y Cyngorwyr D.I. Smith a J. Cahill yn cael eu henwebu i weithredu ar y cyd-grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlwyd i ystyried y cynigion ar gyfer y Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1:20pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

|                            |                                                                                                        |
|----------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>      | <b>Pwyllgor Craffu Cymunedau</b>                                                                       |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b> | <b>12 Ebrill 2012</b>                                                                                  |
| <b>Swyddog Arwain:</b>     | <b>Pennaeth Prifffyrdd a Seilwaith/<br/>Pennaeth Cynllunio, Adfywio a Gwasanaethau<br/>Rheoleiddio</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b> | <b>Prif Swyddog y Strategaeth Adfywio</b>                                                              |
| <b>Teitl:</b>              | <b>Digwyddiad Beicio Etape Cymru: y Diweddaraf</b>                                                     |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Digwyddiad beicio Etape Cymru 2012 – adroddiad cynnydd am y camau a gymerwyd ers y Pwyllgor Craffu Cymunedau diwethaf.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Amlinellu'r cynnydd hyd yma o ran trefnu digwyddiad 2012 gan gynnwys canlyniadau'r broses gyfathrebu ac ymgynghori ac unrhyw gamau sydd wedi codi o'r broses honno.

Yn ei gyfarfod diwethaf, penderfynodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau ei fod yn cefnogi cau'r ffordd er mwyn i Etape Cymru 2012 ddigwydd, a hynny'n amodol ar:

- ymgyngħori'n llawn â'r cymunedau a'r busnesau lleol y bydd cau'r ffordd yn effeithio arnynt, gan gynnwys ymgynghori â'r Grŵp Aelod Ardal lleol;
- monitro'r effaith a gaiff y digwyddiad ar gymunedau lleol cyn y ras, yn ystod y ras ac ar ôl y ras, gan gyflwyno adroddiad am yr agwedd hon i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn yr Hydref 2012; a
- rhoi gwarant i'r Pwyllgor y bydd Bwlch yr Oernant yn cael ei ailagor i draffig erbyn 11am.

Gofynnodd y Pwyllgor am gael gwybod y diweddaraf am y cynnydd i fodloni'r amodau hyn yn y cyfarfod dilynol hwn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried y cynnydd diweddaraf ac yn darparu sylwadau.

#### **4. Manylion yr adroddiad**

Mae Cyngor Sir Ddinbych bellach yn cyfathrebu'n rheolaidd â Participate Sport, trefnyddion newydd Etape Cymru, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mewn perthynas ag ail ddigwyddiad 'ffordd ar gau' ar ddydd Sul 9 Medi 2012. Bydd y llwybr yn dechrau ym Mangor Is-coed a bydd tua 70 milltir ohono'n rhedeg drwy Sir Ddinbych, gan arddangos gwlad feicio ysblennydd y sir.

Mae'r Grŵp Cyngori ar Ddiogelwch (ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Brys/Priffyrdd/yr Heddlu) yn fodlon cefnogi'r digwyddiad hwn ar yr amod yr eir i'r afael â materion a gododd yn 2011 mewn perthynas â rheoli traffig a threfnu pobl, fel yn ôl ei gyfarwyddyd. Mae cynllun rheoli digwyddiad yn cael ei lunio gan Participate Sport yn amlygu'r cynllun ar gyfer ymgynghori, cyfathrebu a rheoli traffig gyda chysylltiad rheolaidd â swyddogion Cyngor Sir Dinbych a Wrecsam a'r Grŵp Cyngori ar Ddiogelwch ehangach drwy gydol.

Mae'r trefnyddion wedi cwrdd â swyddogion Priffyrdd ac Adfywio a Rheolwr Prosiect y Ganolfan Ragoriaeth Beicio, i adolygu digwyddiad 2011 ac maent wedi ystyried argymhellion y Grŵp Cyngori ar Ddiogelwch. Mae'r cynllun cyfathrebu ar gyfer Etape Cymru 2012 ynghlwm (atodiad 1) ar gyfer sylwadau.

#### **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae Sir Ddinbych yn gyrchfan o ansawdd i feicwyr, heb fod rhyw lawer wedi'i darganfod eto, ac mae ganddi gyfle gwych i elwa'n economaidd ar y twf a welwyd yn y sector twristiaeth gweithgareddau. Mae adfywio ymhlið blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

Mae rhannau sylwedol o Sir Ddinbych wedi'u dynodi'n ddiweddar yn Ganolfan Ragoriaeth Beicio ar gyfer Gogledd Cymru, gyda'r nod o *greu ardal sy'n cael ei chydnabod yn genedlaethol yn gyrchfan eithriadol drwy gydol y flwyddyn ar gyfer beicio ar y ffordd ac oddi ar y ffordd a gweithgareddau awyr agored i bawb mewn golygfeydd eithriadol a chyferbynol.*

Mae prosiect y Ganolfan Ragoriaeth Beicio yn rhan o weledigaeth Croeso Cymru i greu ardaloedd twristiaeth penigamp drwy raglen fuddsoddi sylwedol, wedi'i hariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Cyngor Sir Ddinbych yw'r partner arweiniol ar gyfer prosiect Canolfan Ragoriaeth Beicio ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n bartneriaeth arloesol rhwng y sector preifat a chyhoeddus ledled Conwy a Sir Ddinbych.

Mae Cyngor Sir Ddinbych wéid ymrwymo hefyd i egwyddorion Rheoli Cyrchfan, wedi'u hyrwyddo gan y Strategaeth Dwristiaeth ar gyfer Gogledd Cymru. Mae Cynllun Gweithredu'r strategaeth honno'n cynnwys datblygu digwyddiadau mawr ac atyniadau a gweithgareddau awyr agored.

## **6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid yw Cyngor Sir Ddinbych yn gwneud cyfraniad ariannol at y digwyddiad.

Amser staff wedi'i ddarparu gan yr adrannau Priffydd ac Adfywio a phrosiect y Ganolfan Ragoriaeth Beicio i helpu'r trefnyddion i gynllunio'r digwyddiad. Sylwer: mae cyllideb y prosiect Canolfan Ragoriaeth Beicio a arweinir gan Gyngor Sir Ddinbych (Ewropeaidd a ffynonellau eraill) wedi ariannu costau llythyrau gwybodaeth at breswylwyr a busnesau, fel y mae wedi cefnogi digwyddiadau beicio diweddar eraill yn yr un ffordd.

## **7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal?**

Cynhaliwyd ymgynghoriadau mewn perthynas â chau'r ffyrdd yn uniongyrchol gan drefnydd y digwyddiad, gyda chyfarwyddyd gan swyddogion Cyngor Sir Ddinbych:

- Anfonwyd llythyrau drwy e-bost gan Participate Sport ar 29 Mawrth 2012 i gynghorau tref a chymuned ac at gynghorwyr sir ar hyd y llwybr.
- Rhyddhawyd datganiad i'r wasg i'r cyfryngau ar 3 Ebrill – gweler atodiad 2
- Y tu mewn i Gyngor Sir Ddinbych – mae ymgynghori ac ymgysylltu eisoes yn digwydd â'r adrannau canlynol: Priffydd, Cludiant Cyhoeddus, Diogelu'r Cyhoedd, Iechyd a Diogelwch, Cefn Gwlad, Prosiect y Ganolfan Ragoriaeth Beicio, Adfywio a Thwristiaeth, Prif Weithredwr, Tîm Cyfreithiol Cyfathrebu Corfforaethol a'r Aelodau Arweiniol dros Adfywio a Phrifffydd.
- Mae Heddlu Gogledd Cymru a'r gwasanaethau brys eraill wedi'u cynnwys yn llawn, a sefydlwyd Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch ar y cyd eto rhwng Wrecsam a Sir Ddinbych i oruchwyllo gweithdrefnau rheoli cerddwyr, cludiant a thraffig ar gyfer y digwyddiad hwn – gweler atodiad 3 a 4
- Mae trefnydd y digwyddiad wedi cael cyfarfodydd cychwynnol â rhai busnesau allweddol ymlaen llaw i geisio ennyn eu diddordeb yn y digwyddiad, i drafod cyfleoedd iddynt gymryd rhan yn y digwyddiad hwn ac elwa arno. Bydd yn gwneud ymwelliadau pellach â phob busnes ar hyd y llwybr a nodwyd, ar ôl cwblhau'r map llwybr a'r amseriadau ar gyfer cau ffyrdd dros dro gyda'r Adrannau Priffydd yn Sir Ddinbych ac yn Wrecsam.

O ganlyniad i'r adborth o'r ymgynghoriad hyd yma:

- ystyriwyd gwahanol ddewisiadau ar gyfer y llwybr
- cafwyd lansiad i'r cyfryngau yn Llangollen

## **8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid yw'r cyngor yn ystyried unrhyw gyfraniad ariannol at y digwyddiad hwn ar hyn o bryd.

## **9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Risg i enw da, gan breswylwyr a busnesau anfodlon y gallai cau'r ffyrdd dros dro effeithio arnynt ar 9 Medi 2012.

Bydd y risg yn cael ei reoli drwy sicrhau bod trefnydd y digwyddiad wedi gwneud popeth posibl i atgoffa'r preswylwyr a'r busnesau am y cynlluniau gorffenedig i gau'r ffyrdd er mwyn gwneud cynlluniau teithio eraill os oes angen.

## **10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (ar gyfer hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ardal awdurdod lleol)

### **Swyddog Cyswllt:**

Prif Swyddog y Strategaeth Adfywio a Buddsoddi  
Ffôn: 01824 706707

## **Appendix 1**

### **Communication timeline for Etape Cymru 2012**

#### **February**

- Participate to finalise route

#### **March**

- Confirm route and map (timings included)
- Participate to contact all parishes and community councils, end of month to advise on event and closures (assisted by Wrexham and Denbighshire with correct contact list)
- Participate to contact all businesses and churches affected by road closures

#### **April**

- Participate to follow up with community councils as required
- Notices to be placed in local press to advise people of event taking place (assisted by council contacts/press department)
- Draft residents letter to be sent to all houses on route (TBC)
- Participate to place information posters at key locations on the route

#### **May**

- Participate to follow up with all businesses and residents who have concerns
- Participate to contact all agencies who may be affected by closures (carers, doctors on call, nursing homes etc)

#### **June**

- Ongoing communication with relevant parties

#### **July**

- Ongoing communication with relevant parties

#### **August**

- Advanced warning signage to be placed around route by JT&M (2 weeks prior to event date)

#### **September**

- Advanced warning signage as above
- Cone placed on all driveways on route with notice to advise residents of closure (night of 8<sup>th</sup> Sept) TBC
- Diversion plans and signage put into place (morning of event)
- 9<sup>th</sup> Sept - Closures enforced (7am onwards)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## APPENDIX 2

### Press Release

*For Immediate Release*

### New Closed Road Etape Cymru Route Announced

Participate Sport, organisers of the revamped Etape Cymru, have today released details of the planned route for the 2012 edition of the event, taking place on Sunday 9th September.

The Etape Cymru, which has received some major modifications from the 2011 edition, will start from Bangor-on-Dee racecourse, situated a few miles southeast of Wrexham. Set amongst beautiful countryside winding through Wrexham and Denbighshire, the start point is overlooked by the hills that participants will later be climbing, providing a perfect opportunity to assess the challenge ahead and soak up the pre-event atmosphere.

The change in the route will ensure that cyclists are more spread out from the start of the ride, reducing any concerns of bunching and crowded roads. There are also several perfectly positioned spectator points on the route, where friends and relatives can relax whilst watching the event take place.

The challenging 92 -mile route will pass through the villages of Llangollen, Carrog, and Minera, and take in climbs of many of the tough hills in the Clwydian range, including Panorama and The Shelf. The exposed climb up World's End towards the end of the course will provide cyclists with fantastic views of the Welsh scenery whilst they tackle the stretch home.

The famous Horseshoe Pass also makes a return to the route, with riders once again having the chance to measure their climbing ability against the best in the sport by taking part in the Horseshoe Challenge.

Chris Boardman MBE, who has used the Horseshoe Pass climb in training throughout his career, said: "The Horseshoe Pass and the surrounding area are just stunning places to ride a bike. Being fairly local, I've used the Horseshoe Pass throughout my career and it's a real test of the form. It's a tough climb that just keeps on going but the views from the top are worth it."

He continued: "Riders of the closed-road Etape Cymru on 9th September 2012 are bound to have a great day out on the bike and will enjoy the fantastic North Wales hospitality and scenery. Good luck!"

Etape Cymru ambassador Geraint Thomas recorded a time of 14m 22s in training on the Horseshoe Pass last year, throwing down the gauntlet for all participants using the roads to train ahead of the event later this year.

"The Etape Cymru is one of the toughest closed road events in Britain and as a proud Welshman I am delighted to support it," said Thomas. "The 92-mile route offers cyclists a challenging but fabulous opportunity to enjoy our spectacular Welsh scenery in the safety of a closed road environment."

Thomas added: "Good luck to all the entrants, cycle hard, keep smiling and enjoy your day and the North Wales hospitality!"

More information on the Etape Cymru route can be found on: [www.etape-cymru.co.uk](http://www.etape-cymru.co.uk). The event will cost £55 and entries are now open.

**ENDS**

#### **Notes to Editors**

For additional information, RSVP, photos and interviews please contact:

Adam Tranter – Fusion Media Services Ltd  
[adam@fusion-media.co.uk](mailto:adam@fusion-media.co.uk) - 07806 55 77 65

#### **Links**

[www.etape-cymru.co.uk](http://www.etape-cymru.co.uk)

#### **About Participate Sport**

Participate Sport is a mass participation event business set up to own, promote and deliver world class events, principally across; cycling, running, triathlon and open water swimming. Participate delivers events based on unique concepts, staged in stunning parts of the world; to ensure they stand out from the existing and increasingly cluttered event calendar. Through this we provide an unforgettable experience and value for participants of all abilities, charities, media and sponsors.

[www.participatesport.com](http://www.participatesport.com)

#### **About Macmillan Cancer Support**

Macmillan Cancer Support improves the lives of people affected by cancer, providing practical, medical, emotional and financial support. Working alongside people affected by cancer, Macmillan works to improve cancer care. One in three of us will get cancer. Two million of us are living with it. If you are affected by cancer Macmillan can help. For more information, visit [www.macmillan.org.uk](http://www.macmillan.org.uk) or freephone 0808 808 0000 for an information pack.

## **APPENDIX 3**

### **Etape Cymru Safety Advisory Group Meeting Friday 2<sup>nd</sup> March 2012 Third Floor Conference Room, Lambpit Street, Wrexham**

#### **Present:**

Phil Harrison, Emergency Planning Manager, WCBC – Chair (PH)  
Geraint Jones, Emergency Planning Officer, WCBC (GJ)  
Gareth Morris, K Extreme, Event Organiser (GM)  
Jo Dytch, Event Director, Participate Sport (JD)  
Harriet Marlow, Operations Director, Participate Sport (HM)  
Nick Rusling, CE Participate Sport (NR)  
Bob Bartlett, H&S Officer, Participate Sport (BB)  
Amanda Davies, Business Services Manager, WCBC (AD)  
Claire Tokarczyk, Marketing & Promotions Officer, WCBC (CT)  
Toni Slater, Public Protection Service Manager, WCBC (TS)  
Darren Green, WCBC Environment (DG)  
Bethan Richards, Marketing Assistant, for Sue Wyn Jones, WCBC (BR)  
Gareth Jones, WCBC Press office  
Inspector Jayne Thomas, North Wales Police (Traffic) (JT)  
Pete Jones, North Wales Police (PJ)  
Daniel Lucy, St Johns Ambulance Service (DL)  
Tim Towers, Denbighshire CC Environment Dept. for Tina Davenport (TT)  
John Edwards, Chair Minera Community Council (JE)  
Jeanette Easton, Emergency Planning, WCBC – Minutes (JME)

#### **Apologies:**

Steve Jones, Amberon Traffic Management  
Eirwyn B Jones, Welsh Ambulance Service Trust (WAST)  
Mike O Meara, North Wales Fire & Rescue  
Sue Wyn Jones, WCBC Communications Manager  
Tina Davenport, Denbighshire CC Environment

#### **1. Welcome & Introductions**

PH welcomed all to the meeting. JD introduced Nick Rusling, Chief Executive of Participate Sport & Bob Bartlett, Health & Safety Officer, Participate Sport.

#### **2. Previous Minutes / Actions**

All actions complete or ongoing.

#### **3. Route Update - Organisers**

JD said that having met with TT & DG, the route had been finalised. The route start & finish will be Bangor on Dee Racecourse, with a staggered start to reduce the possibility of a cyclists “bottleneck”.

BB gave an overview of his role and that he had toured the route. He will complete a full risk assessment covering all aspects of the race. He will be working closely with the traffic management contractors. He will develop a timing schedule for the required road closures to enable the public to be warned in advance.

Concerns raised about the condition of some of the road surfaces along the route.

**Action: Participate Sport to identify these areas specifically to both Wrexham & Denbighshire Highways department.**

**Action:** JD to have drafts of both the Traffic & Event Management plans in time for the next SAG meeting.

#### **4. Communications**

PH said that concerns had been raised about the effectiveness of radio communications given the remoteness of parts of the route.

**Action:** Participate Sport to identify risk areas and source best solutions for appropriate communications.

**Action:** Participate Sport to cover communications strategy within Events Plan.

#### **5. Organisational Issues**

- **Police**

A Police liaison officer will be provided for no cost at the event control room at Bangor on Dee. Any extra policing will entail a cost

**Action:** PJ to supply event organiser with costings.

JT asked when the route signs were being put up.

**Action:** Participate Sport to provide full signage schedule as part of event plan.

JT asked what contingencies were in place should a fatality occur on the route (event or non event). BB stated this will be in the event plan

- **Ambulance**

Not at meeting. No issues forthcoming

**Action:** Participate Sport to liaise with WAST prior to next SAG

- **Denbighshire CC**

TT said that the route had been agreed in principle at the Members Scrutiny Committee. All members locally to be kept in public relations loop. They also requested that the Horseshoe pass be opened by 11.00; JD said that it was unlikely to be open until 11.30.

- **Wrexham CC**

No Issues

- **Organisers**

No Issues

#### **7. AOB:**

JE asked that Road signs along the route be removed as quickly as possible after the event – JD assured him they would be.

DL asked if they were able to use the Medical room at Bangor on Dee Racecourse.

**Action:** Participate Sport to liaise with Racecourse management and report back at next SAG.

#### **8. Dates of Next Meeting:**

**Wednesday May 2<sup>nd</sup> at 14.00  
Committee Room 2, Guildhall, Wrexham LL11 1AY**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam  
a Chyngor Sir Ddinbych**

**Ôl -drafodaeth am Etape Cymru 2011**

## CYNNWYS

### CYNNWYS

| ADRAN                                                   | TUDALEN |
|---------------------------------------------------------|---------|
| Rhagymadrodd                                            | 3       |
| Crynodeb o'r ôl-drafodaeth                              | 4       |
| Cyflwyniad                                              | 5       |
| Meysydd i'w datblygu a'u gwella                         | 6       |
| Meysydd a lwyddodd                                      | 8       |
| Argymhellion                                            | 9       |
| Atodiad A – Sylwadau Ysgrifenedig a Chofnodion Cyfarfod |         |

## RHAGYMADRODD

Trefnwyd y cyfarfod ôl-drafod er mwyn dysgu gwersi o ddigwyddiad beicio agoriadol Etape Cymru ac i wneud argymhellion i'w gweithredu yn y dyfodol.

Cynrychiolwyd y sefydliadau canlynol: -  
Heddlu Gogledd Cymru  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam  
Cyngor Sir Ddinbych  
Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru  
K-extreme (trefnydd)  
Ambiwlans Sant Ioan

Amcanion yr ôl-drafodaeth oedd: -

- Nodi meysydd i'w datblygu a'u gwella ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.
- Gwneud argymhellion i'w gweithredu wrth gynllunio digwyddiadau yn y dyfodol.

## CRYNODEB O'R ÔL -DRAFODAETH

**Lle:** Guildhall, Wrecsam

**Dyddiad:** 2 Tachwedd 2011

**Arweinydd yr Ôl-drafodaeth:** Raymond Smith

Cynhaliwyd cyfarfod yr ôl-drafodaeth drwy wahodd cyfranogwyr i nodi meysydd a lwyddodd, ynghyd â meysydd yr oedd gofyn eu gwella ar draws amrywiaeth o benawdau.

Ar ôl yr ymarfer hwn, cafodd y cyfranogwyr y cyfle i fyfrio ar eu rolau yn ystod y digwyddiad ac i gyfrannu eu barn mewn trafodaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar y sylwadau a wnaethpwyd gan gyfranogwyr yn ystod eu hadborth a'u trafodaeth drwy gydol y broses ôl-drafod. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried adborth ysgrifenedig o ystod eang o ffynonellau, e.e. sefydliadau a gymerodd ran yn y cynllunio ymlaen llaw ac ar y diwrnod, preswylwyr lleol, safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r meysydd a awgrymwyd i'w gwella ynghyd â'r prif feysydd a lwyddodd. Yn seiliedig ar y broses ôl-drafod, gwnaethpwyd nifer o argymhellion i helpu i reoli digwyddiadau yn y dyfodol.

## CYFLWYNIAD

Her ‘sportif’ feicio oedd Etape Cymru a dim ond yr ail ddigwyddiad yn y DU lle’r oedd ffyrdd ar gau’n llwyr. Roedd y llwybr 100 milltir yn dechrau ac yn gorffen yn Wrecsam ac roedd yn mynd drwy Fryniau Clwyd yn Sir Ddinbych.

Roedd y llwybr yn cynnwys nifer o riwiau adnabyddus fel Bwlch yr Oernant, y Silff, y Garth a Chraig y Forwyn.

Trefnwyd y digwyddiad gan ‘K-Extreme Ltd’ ac fe’i cynhaliwyd ddydd Sul 9 Hydref 2011.

## MEYSYDD I'W DATBLYGU A'U GWELLA

### Llwybr / Rheoli Traffig / Trefnu Pobl

- Mae angen dewis y llwybr yn ofalus i osgoi ardaloedd trefol dwys eu poblogaeth.
- Mae angen ystyried a rheoli man cychwyn y digwyddiad er mwyn osgoi peryglon sy'n gysylltiedig â thagfeydd beicwyr ar ffyrdd cul.
- Dylid ystyried defnyddio rhannau o'r llwybr fwy nag unwaith er mwyn cwtogi ar nifer y ffyrdd sy'n cael eu cau.
- Rhaid cynnal asesiad risg o'r llwybr cyfan er mwyn nodi mannau lle mae arwyddion / gwaith trefnu pobl arbennig yn ofynnol.
- Mae angen i bersonél allweddol a nodir yn y cynllun rheoli traffig ymgyfarwyddo'n llwyr â'r llwybr, a hynny ymhell cyn diwrnod y digwyddiad.
- Mae angen nodi timau i reoli rolau penodol, fel arwyddion, trefnu pobl, lles.
- Mae angen i'r Cynllun Rheoli Traffig fod yn gryno, ond rhaid iddo nodi pob lleoliad allweddol a phob cam allweddol i'r gymryd.
- Mae angen i arwyddion llwybr ac arwyddion cau ffordd / gwyriad gael eu gweithredu'n llawn, gyda chynlluniau wrth gefn i sicrhau bod difrod posibl yn cael ei osgoi / ei unioni.
- Rhaid cynnwys gweithdrefn weithredu ac atodlen o arwyddion yn y Cynllun Rheoli Traffig, gan gynnwys dyddiadau ac amseroedd.
- Mae angen gwahaniaethu'n glir rhwng trefnu pobl a rheoli traffig.
  - Mae gwaith Rheoli Traffig yn cael ei wneud gan weithredwyr a hyfforddwyd yn briodol i reoli traffig y mae'r digwyddiad yn effeithio arno.
  - Mae gwaith Trefnu Pobl yn cael ei wneud gan stiwardiaid sydd wedi cael gwybodaeth briodol, yn bennaf i gynghori beicwyr, ond gallant hefyd gynnig cyngor i fodurwyr ynghylch gwyriadau ac ati.
- Dylid nodi yn y cynllun leoliadau lle byddai gwybodaeth leol yn ddymunol.

### Ymgynghori / Cysylltu

- Rhaid ymgynghori drwy'r Grŵp Cyngori ar Ddiogelwch, er mwyn i Heddlu Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru ac Awdurdodau Lleol werthuso'n llawn effaith y digwyddiadau ar eu sefydliadau, y cyfranogwyr a'r cyhoedd cyffredinol. Bydd hyn yn cael ei ddechrau'n gynnar.
